

Nodyn Canllawiau Cynllunio
Atodol

Mannau Agored Cyhoeddus ar gyfer Hamdden



Cynllunio Strategol a Thai
Cyngor Sir Ddinbych
Mawrth 2017

Cynnwys

1	Rhestr Termau	3
2	Statws y ddogfen a'r camau paratoi	4
3	Cefndir	4
4	Polisi Cynllunio	5
4.1	Polisi Cynllunio Cymru	5
4.2	Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored	6
4.3	Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006-2021	6
5	Darpariaeth ac Anghenion Presennol	8
5.1	Asesiad o Fannau Agored Presennol	8
5.2	Diffiniadau Mannau Agored	8
5.3	Mathau o Fannau Agored	9
5.4	Trothwyon Mannau Agored	10
6	Lleihau Effaith Datblygu	13
7	Rheoli Datblygu	15
8	Sbardun Darparu	15
9	Canllawiau ar Ddyluniad a Chynllun Mannau Agored newydd	16
9.1	Cyflwyniad	16
9.2	Egwyddorion Cynllunio Mannau Agored	16
9.3	Mannau Gwyrdd Amwynder	18
9.4	Darpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc	23
9.5	Y 10 egwyddor ar gyfer cynllunio mannau chwarae llwyddiannus	24
9.6	Cyfleusterau Chwaraeon Awyr Agored	28
9.7	Coridorau Gwyrdd a Rhwydweithiau Teithio Llesol	32
9.8	Mannau Gwyrdd Naturiol a Lled-naturiol Hygyrch	33
10	Cysylltiadau	35

1. Rhestr Termau

CCA	Canllawiau Cynllunio Atodol
CDLI	Cynllun Datblygu Lleol
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
CSDd	Cyngor Sir Ddinbych
Chwarae Amgylcheddol	Darpariaeth i fodloni anghenion plant i chwarae ag elfennau naturiol
LIC	Llywodraeth Cymru
PCC	Polisi Cynllunio Cymru
TAN 16	Nodyn Cyngor Technegol 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored

2 Statws y ddogfen a'r camau paratoi

- 2.1 Mae'r ddogfen hon yn un o gyfres o nodiadau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) sy'n ymhelaethu ar bolisiau Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Sir Ddinbych 2006-2021 mewn fformat sy'n ceisio arwain proses, cynllun ac ansawdd datblygiadau newydd. Nid yw nodiadau CCA y Cyngor yn rhan o'r CDLI mabwysiedig.
- 2.1.1 Mae'r ddogfen hon yn un o gyfres o nodiadau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) sy'n ymhelaethu ar bolisiau Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Sir Ddinbych 2006-2021 mewn fformat sy'n ceisio arwain proses, cynllun ac ansawdd datblygiadau newydd. Nid yw nodiadau CCA y Cyngor yn rhan o'r CDLI mabwysiedig.
- 2.1.2 Pwrpas y ddogfen hon yw darparu canllawiau a chyngor manwl i gynorthwyo aelodau o'r cyhoedd a'r Cyngor, ymgeiswyr posibl a Swyddogion wrth drafod cyn cyflwyno ac, yn dilyn hynny, wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio yn y dyfodol. Fe'i mabwysiadwyd yn ffurfiol gan Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych ar Mawrth 15 2017.
- 2.1.3 Lluniwyd y ddogfen hon yn unol â pholisi a chanllawiau cynllunio a nodwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored.

3 Cefndir

- 3.1 Cydnabyddir bod mannau agored cyhoeddus fel cyfleusterau chwaraeon, parciau a gerddi neu ardaloedd gwyrdd amwynder yn bwysig i ansawdd bywyd pobl ac i greu cymunedau cynaliadwy. Maent yn cyfrannu tuag at les cyffredinol y gymuned mewn perthynas â darparu ar gyfer chwaraeon a hamdden, annog gweithgarwch corfforol a'r manteision i ieuchyd sy'n gysylltiedig â hyn. Mae'r ardaloedd hyn yn annog pobl i fwynhau'r amgylchedd naturiol gan gyfrannu tuag at fioamrywiaeth, cadwraeth natur a'r tirwedd, ansawdd aer a gwarchod dŵr daear.

- 3.1.1 Mae polisiâu cynllunio lleol a chenedlaethol yn ceisio diogelu a gwella maint ac ansawdd darpariaeth o fannau agored er mwyn bodloni anghenion cenedlaethau heddiw a rhai'r dyfodol. Gellir cyflawni hyn trwy ddiogelu a gwella'r ddarpariaeth bresennol a darparu mwy lle ceir bod gofyn/angen am hynny. Bydd darpariaethau mannau agored ar gyfer datblygiadau newydd o faint a math addas ac yn y lleoliad mwyaf addas i fodloni anghenion y gymuned leol.

4 Polisi Cynllunio

4.1 Polisi Cynllunio Cymru

- 4.1.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr 2016) [PCC] yn nodi polisi cenedlaethol Cymru, gan anelu at ddatblygu economaidd cadarn, diogelu asedau naturiol a gwella ansawdd bywyd unigolion a chymunedau. Mae'n darparu'r fframwaith polisi ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu lleol yn effeithiol.
- 4.1.2 Mae PCC yn pwysleisio bod dyletswydd statudol ar Awdurdodau Cynllunio Lleol Cymru i gydymffurfio â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a sefydlwyd gan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae Pennod 4 yn nodi'r prif fframwaith polisi o ran egwyddorion cynllunio sy'n sail i ddatblygu cynaliadwy wrth geisio mynd i'r afael â thair prif her cynllunio gofodol: newid demograffig, newid hinsawdd ac anghyfarfartaledd gofodol mewn gweithgarwch economaidd a chyfoeth. Prif nodweddion cynllunio da yw:
- *Cynhwysiant*: rhoddir pobl wrth galon y broses gynllunio, cydnabyddir amrywiaeth a gwahaniaeth, cynigir dewis pan na fydd un ateb cynllunio yn gweddu i bob defnydd, darperir ar gyfer hyblygrwydd wrth ei ddefnyddio;
 - *Hyrwyddo defnydd effeithlon o adnoddau gan gynnwys tir*: ceisio gwneud y gorau o effeithlonrwydd ynni, lleihau cymaint â phosib' o ddefnydd o adnoddau anadnewyddadwy a chynhyrchu cyn lleied o wastraff a llygredd â phosib';
 - *Mynd i'r afael â newid hinsawdd*: lleihau allyriadau nwyon tŷ gwyrdd ac addasu'n effeithiol i oblygiadau newid hinsawdd;
 - *Cynnig amgylchedd o ansawdd uchel*: cynnwys mannau gwyrdd agored pan fydd datblygiadau o ddwysedd uwch; ac

- *Ystyried effaith ar y tir*: cyfraniadau cadarnhaol tuag at ddiogelu a gwella'r amgylchedd, amddiffyn adnoddau dŵr ac ansawdd aer.

4.1.3 Mae PCC Twristiaeth, Chwaraeon a Hamdden yn cynnig y cyngor a'r canllawiau polisi canlynol i Awdurdodau Cynllunio Lleol.

4.1.4 Mae chwaraeon a hamdden yn cyfrannu at ansawdd ein bywydau. Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi datblygiad chwaraeon a hamdden a'r ystod eang o weithgareddau hamdden sy'n annog gweithgarwch corfforol. Mae'r gweithgareddau hyn yn bwysig ar gyfer lles plant ac oedolion ac i fywyd cymdeithasol ac economaidd Cymru.

4.1.5 Mae 'Dringo'n Uwch' (Gorffennaf 2006) yn nodi strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru am Gymru egnïol, iach a chynhwysol lle mae chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn cael eu defnyddio i wella ansawdd bywyd yn genedlaethol ac mewn cymunedau lleol.

4.2 **Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored**

4.2.1 Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16: Chwaraeon a Hamdden 2009 Canllawiau Cynllunio (Cymru) yn darparu canllawiau manylach ar gynllunio at ddefnydd chwaraeon a hamdden a lefelau darpariaeth addas. Mae'n argymhell safon o 2.4 hectar (6 erw) o dir, o leiaf, i bob 1,000 o bobl mewn perthynas â mannau chware awyr agored. Mae hyn yn unol â'r canllawiau a nodwyd gan y Gymdeithas Meysydd Chwarae.

4.3 **Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006-2021**

4.3.1 Lluniwyd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006-2021 yn unol â deddfwriaeth gynllunio a pholisi cenedlaethol ac fe'i mabwysiadwyd gan y Cyngor fis Mehefin 2013.

- 4.3.2 Mae Amcan rhif 8 y CDLI yn ceisio diogelu mannau agored presennol a sicrhau bod datblygiadau newydd yn cyfrannu digon at ddarparu mannau agored cyhoeddus. Diffiniwyd 'mannau agored' yn TAN 16, Atodiad A fel 'pob man agored sydd o werth cyhoeddus, yn cynnwys tir, a chyrff dŵr fel afonydd, camlesi, llynnoedd, cronfeydd a basnau dociau sydd bellach yn segur, sy'n cynnig cyfleoedd o ran chwaraeon, hamdden a thwristiaeth'.
- 4.3.3 Mae'r CDLI yn cynnwys polisïau sy'n gysylltiedig â diogelu mannau agored presennol ac ar gyfer darparu mannau agored mewn datblygiadau newydd. Y polisïau mwyaf perthnasol yw Polisi CCC 11 – Hamdden a Mannau Agored a Pholisi CCC 12 – Cyfleusterau Cymunedol.
- 4.3.4 Bydd gofyn i ddatblygwyr ddarparu gwaith tirlunio priodol mewn datblygiadau newydd, yn ychwanegol at fannau agored ar gyfer hamdden.
- 4.3.5 Mae Safon y Sir, a nodwyd yn CCC11, wedi cael ei datblygu yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored (2009) sy'n argymhell y gall fod yn briodol defnyddio safonau 'meincnod' y Gymdeithas Meysydd Chwarae os nad oes Asesiad Mannau Agored cynhwysfawr ar gael. Mae Polisi CCC11 yn nodi y bydd isafswm safonol y Sir o 2.4 hectar i bobl 1,000 o bobl yn berthnasol i bob safle datblygu. Mae mwy o ganllawiau ar sut y bydd y safon hon yn cael ei rhoi ar waith wedi'i chynnwys o fewn yr adrannau canlynol.

Dolenni

Polisi Cynllunio Cymru (fersiwn Cymraeg):

<http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?lang=cy>

Nodiadau Cyngor Technegol (fersiwn Cymraeg):

<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?lang=cy>

Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006-2021 (fersiwn Cymraeg):

<http://www.denbighldp.co.uk/cymraeg/default.htm>

5 Darpariaeth ac Anghenion Presennol

5.1 Asesiad o Fannau Agored Presennol

5.1.1 Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn cynnal asesiad llawn o ddarpariaeth ac anghenion mewn perthynas â mannau agored ar draws y Sir i asesu maint, ansawdd a hygyrchedd y mannau agored presennol. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, bydd canlyniadau'r gwaith hwn yn rhoi gwybodaeth i'r adolygiad o safonau'r Sir.

5.1.2 Mae Cyngor Sir Ddinbych yn hyrwyddo amgylchedd di-rwystrau a Mynediad i Bawb o fewn y gymuned, gan gynnwys pobl anabl dan ofynion Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005. Dylid ystyried anghenion holl sectorau'r gymuned wrth ddarparu pob math o fannau agored hamdden cyhoeddus.

5.2 Diffiniadau Mannau Agored

5.2.1 Diffinnir mannau agored yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel tir sy'n cael ei osod fel gardd gyhoeddus, neu a ddefnyddir at ddibenion hamdden y cyhoedd, neu dir sy'n dir claddu nad yw'n cael ei ddefnyddio rhagor. Fodd bynnag, dylid ystyried mannau agored fel pob man agored sydd o werth i'r cyhoedd, sy'n cynnwys nid tir yn unig, ond cyrff dŵr hefyd, fel afonydd, camlesi, llynnoedd a chronfeydd sy'n cynnig cyfleoedd pwysig ar gyfer chwaraeon a hamdden ac sydd hefyd yn gallu bod yn amwynder gweledol ac sydd efallai'n bwysig i gadwraeth neu fioamrywiaeth.

5.2.2 Mae Cymdeithas Genedlaethol y Meysydd Chwarae yn diffinio lleoedd chwarae fel "Mannau sydd ar gael ar gyfer chwaraeon, gweithgareddau hamdden egniïol neu i blant gael chwarae, sydd o faint a natur addas at eu dibenion bwriadedig ac sy'n ddiogel i'w cyrraedd ac ar gael i'r cyhoedd". Nid yw'r Gymdeithas Meysydd Chwarae'n ystyried bod 'mannau chwarae awyr agored' yr un fath â mannau agored cyhoeddus. Mannau sy'n hygyrch yn ddiogel ac sydd ar gael i'r cyhoedd ydynt, ac sydd o faint a natur addas ar gyfer chwaraeon, gweithgareddau hamdden egniïol ac i blant gael chwarae. Felly, mae'n 'rhan sylweddol o fannau agored, ond nid dyma'r unig ffurf arnynt' (Cymdeithas Meysydd Chwarae, 2008). Bydd y diffiniad hwn yn cael ei ddefnyddio wrth asesu a oes mannau chwarae addas yn yr awyr agored wedi'u darparu.

- 5.2.3 Mae mannau agored yn elfen hanfodol o fywyd modern beunyddiol ac mae nifer yn cydnabod bod darparu cyfleusterau ‘parth cyhoeddus’ sydd o ansawdd uchel fel parciau a gerddi, mannau dinesig neu fannau gwyrdd anffurfiol yn werthfawr i drigolion yr ardal, ond y gall hefyd gynorthwyo i hyrwyddo ardal fel lle deniadol i fyw, gan gynyddu gwerth eiddo a gwella’r ansawdd amgylcheddol lleol.
- 5.2.4 Mae’r Gymdeithas Meysydd Chwarae (2016) yn dweud ‘y gall mynediad at fannau agored o safon uchel wneud cyfraniad pwysig tuag at iechyd a lles wrth hyrwyddo cymunedau iach. Ni ddylid adeiladu ar fannau agored o’r fath, oni bai fod darpariaeth newydd yn lle unrhyw golled.’
- 5.2.5 Mae mannau agored hefyd yn bwysig er mwyn atal newid hinsawdd a llifogydd trwy integreiddio Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SUDS) a manteision a swyddogaethau eraill a ddaw o isadeiledd gwyrdd a thrwy ddarparu cyfleoedd i gadw a gwella’r amgylchedd naturiol.

5.3 Mathau o Fannau Agored

Mae TAN 16 yn rhoi canllawiau ar fathau gwahanol o fannau agored.

- 5.3.1 Tabl 1 Mathau o Fannau Agored fel y nodir hwy yn TAN 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored

Cyfeirnod	Mathau TAN 16
i.	parciau a gerddi cyhoeddus – gan gynnwys parciau trefol, parciau gwledig a gerddi ffurfiol;
ii.	mannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol – gan gynnwys coetir, coedwigoedd trefol, prysgoed.
iii.	coridorau gwyrdd – gan gynnwys glannau afonydd a chamlesi, llwybrau cerdded, llwybrau beicio, llwybrau meirch, tir rheilffordd segur a hawliau tramwy; gall y rhain gysylltu ardaloedd gwahanol o fewn a rhwng ardaloedd trefol. Gallent hefyd ffurfio rhan o rwydwaith sy’n cysylltu ardaloedd trefol, neu sy’n eu cysylltu â’r wlad o’u hamgylch.
iv.	cyfleusterau chwaraeon awyr agored (â wynebaw naturiol neu artiffisial, sy’n eiddo cyhoeddus neu breifat) – gan gynnwys cyrtiau tennis, caeau bowlio, caeau chwaraeon, meysydd golff, traciau athletau, caeau chwarae ysgolion a sefydliadau eraill, ac ardaloedd chwaraeon awyr agored eraill. Diffinnir cae chwaraeon ar hyn o bryd fel cae chwarae sy’n fwy na 0.4 hectar ac sydd wedi cael ei farcio ar gyfer gemau tîm o fewn y bum mlynedd ddiwethaf.

v.	mannau gwyrdd amwynder (gan amlaf, ond nid o hyd, mewn ardaloedd tai) - gan gynnwys mannau hamdden anffurfiol (preifat neu rai sy'n agored i'r cyhoedd), ymylon ffyrdd, mannau gwyrdd mewn ac o amgylch tai ac adeiladau eraill e.e. ysbytai, ysgolion a cholegau, adeiladau diwydiannol a busnes, gerddi domestig a lleiniau glas mewn pentrefi;
vi.	darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc – gan gynnwys ardaloedd chwarae, ardaloedd i chwarae ar olwynion, gan gynnwys sgrialu, ardaloedd cicio pêl yn yr awyr agored ac ardaloedd eraill llai ffurfiol (e.e. ardaloedd cwrdd â ffrindiau, cysgodfannau i blant yn eu harddegau);
vii.	rhandiroedd, gerddi cymunedol a ffermydd (trefol) dinesig – diffinnir rhandir statudol fel ardal sydd heb arwynebedd yn fwy nas 40 polyn (1,000 metr sgwâr);
viii.	mynwentydd a thir eglwysi;
ix.	ardaloedd cefn gwlad hygyrch ar gyrion trefi – sy'n ffinio'n uniongyrchol, neu sydd wedi'u cysylltu ag ardal drefol;
x.	mannau dinesig, gan gynnwys sgwariau dinesig a sgwariau marchnad, promenadau ac ardaloedd eraill ar gyfer cerddwyr, sydd â wyneb caled, yn bennaf. Gall y mannau hyn gynnwys ardaloedd o blanhigion a choed;
xi.	dŵr – gan gynnwys dŵr llanw awyr agored a dŵr croyw

5.4 Trothwyon Mannau Agored

5.4.1 Mae Polisi CCC11 y CDLI yn gofyn bod datblygiadau'n cyfrannu tuag at ddarpariaeth mannau agored. Gall datblygiadau preswyl newydd osod galw ychwanegol ar fannau agored sy'n bod eisoes a byddwn felly'n gofyn bod mannau agored yn cael eu darparu ar y safle, neu'n gofyn am gyfraniadau tuag at wella'r cyfleusterau lleol sy'n bod eisoes. Gall datblygiadau preswyl newydd olygu adeilad newydd, isrannu datblygiad preswyl presennol, neu newid defnydd i ddefnydd preswyl o ganlyniad i addasu.

5.4.2 Mae Polisi CCC11 yn gosod safon y Cyngor ar gyfer darparu mannau agored, sy'n adlewyrchu safonau 'meincnod' y Gymdeithas Meysydd Chwarae, gweler tabl 2. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn cynnal asesiad cynhwysfawr o fannau agored ar gyfer y Sir a bydd Safon y Sir yn cael ei hadolygu ar ôl cwblhau'r asesiad.

5.4.3 Tabl 2 Safonau 'meincnod' Meysydd Chwarae, a nodir ym Mholisi CCC11 y CDLI

Math o Fan Agored	Safon
Chwaraeon awyr agored gan gynnwys Caeau Chwarae	1.6 Hectar/1,000 o Bobl
Mannau chwarae gydag offer i blant	0.25 Hectar/1,000 o Bobl
Mannau anffurfiol i blant	0.55 Hectar/1,000 o Bobl
Cyfanswm	2.4 Hectar/1,000 o Bobl

5.4.4 Yn ôl y Gymdeithas Meysydd Chwarae, gall Cyfleusterau Chwaraeon Awyr Agored (gan gynnwys caeau chwaraeon) gynnwys chwaraeon maes sy'n cynnwys pêl-droed, rygbi'r undeb, rygbi'r gynghrair, hoci, *lacrosse*, criced a phêl-droed Americanaidd. Mae chwaraeon awyr agored eraill yn cynnwys cyrtiau a lawntiau sydd â wynebaw naturiol neu artiffisial, gan gynnwys cyrtiau tennis, lawntiau bowllo, traciau athletau ac ardaloedd chwaraeon awyr agored eraill. Mae manau chwarae gydag offer i blant yn cael eu diffinio fel manau dynodedig i blant a phobl ifanc sy'n cynnwys ystod o gyfleusterau ac amgylchedd sydd wedi'i gynllunio i ddarparu cyfleoedd penodol i chwarae yn yr awyr agored, sy'n cynnwys manau chwarae anffurfiol o fewn ardaloedd tai. Mae'r rhan fwyaf o'r safleoedd hyn yn cael eu diffinio fel Ardaloedd Chwarae Lleol ag Offer. Mae manau anffurfiol i blant wedi'u diffinio fel manau hamdden anffurfiol, manau gwyrdd cymunedol mewn ac o amgylch tai, a lawntiau mewn pentrefi sy'n addas i chwarae arnynt. Gall hyn hefyd ddisgrifio 'manau gwyrdd amwynder', ond nid yw pob man gwyrdd amwynder yn addas i chwarae arnynt.

5.4.5 Felly, yr isafswm safonol o ran darparu manau agored yw 24 m² y pen. Amcangyfrifir y nifer ddisgwyliedig a fydd yn byw yn y tai ar sail y nifer gyfartalog o bobl sy'n byw mewn annedd yn Sir Ddinbych ar hyn o bryd, sef 2.3 person, i ddarparu'r angen a nodir isod ar gyfer pob annedd.

5.4.6 Tabl 3 Gofynion o ran darparu manau agored

Math o Fan Agored	Angen fesul annedd
Chwaraeon awyr agored, yn cynnwys caeau chwarae	36.8m ²
Mannau chwarae gydag offer i blant	5.75m ²
Mannau anffurfiol i blant	12.65m ²

- 5.4.7 Pan nad yw'r nifer a'r math o anheddau'n hysbys (er enghraifft, ceisiadau amlinellol), bydd yr angen am fannau agored yn cael ei gynnal trwy amod cynllunio neu gytundeb cyfreithiol er mwyn gallu datrys y mater pan fydd cais manwl yn cael ei wneud.
- 5.4.8 Mae Polisi CCC11 yn nodi y dylid darparu mannau agored ar y safle bob tro, oni bai fod gwneud hynny yn anymarferol. Mae'n well gan y Cyngor i fannau agored gael eu darparu ar y safle ond mae'n cydnabod bod amgylchiadau pan na fyddai hyn yn ymarferol oherwydd ardal y safle. Yn unol â hyn, ni fydd angen darpariaeth chwaraeon awyr agored ar y safle ond ar ddatblygiadau o 200 annedd neu fwy. Ni fydd angen darparu mannau chwarae i blant ond ar ddatblygiadau o 30 annedd neu fwy. Os nad ddarperir mannau agored ar y safle, yna bydd angen swm cyfnewidiol yn lle darpariaeth ar y safle. Trothwyon dangosol yw'r rhain a bydd darpariaeth ar y safle ar gyfer safleoedd sy'n llai na 30 yn cael eu hystyried yn unigol.
- 5.4.9 Tabl 4 Gofynion o ran darparu mannau agored

Math o Fan Agored	Trothwy ar gyfer darpariaeth ar	Trothwy ar gyfer cyfraniadau
Chwaraeon awyr agored, yn cynnwys caeau chwarae	200 annedd neu fwy	1-200 annedd
Mannau chwarae gydag offer i blant	30 annedd neu fwy	1-30 annedd
Mannau anffurfiol i blant	30 annedd neu fwy	1-30 annedd

- 5.5 Ni fydd disgwyl i ddatblygiadau sy'n cynnwys llety gwarchod, gofal ychwanegol, tai henoed a ffurfiau eraill o ddatblygiadau arbenigol lle na fydd plant yn byw ynddynt ddarparu mannau chwarae i blant. Er hynny, dylid darparu mannau agored eraill ar y safle i'r preswylwyr. Gallai hyn gynnwys gerddi, ardaloedd eistedd, ac ati. Dylai datblygwyr hefyd fanteisio ar allu mannau agored i fodloni nifer o ofynion mewn un lle, a dylid eu hannog i ddefnyddio dulliau cynllunio da i ddefnyddio'r rhannau sydd heb eu datblygu ar eu safleoedd datblygu newydd yn y modd mwyaf cost effeithiol.

- 5.5.1 Mae galw parhaus am randiroedd o fewn y Sir, yn enwedig yn Llanelwy, Rhuthun, Dinbych, Llangollen, y Rhyl a Phrestatyn a gallai darparu rhandiroedd, perllannau cymunedol ac ardaloedd cymunedol i dyfu planhigion ac ati ar y safle, neu gyfrannu tuag at ddarparu cyfleusterau oddi ar y safle, gael eu hystyried yn rhan o gyfrannu tuag at y gofynion am fannau agored.
- 5.5.2 Pan fo hynny'n addas, dylai datblygiadau nad ydynt yn rhai preswyl hefyd gynnwys mannau agored a gwaith tirlunio i sicrhau bod y datblygiad o ansawdd uchel ac yn cyfrannu i'r amgylchedd.

6 Lleihau Effaith Datblygu

- 6.1 Lle bo hynny'n ymarferol, a phan fo datblygiadau preswyl yn fwy na'r trothwy a amlinellir uchod, dylid darparu ardaloedd chwarae a mannau agored ar y safle. Mewn amgylchiadau penodol, mae modd darparu oddi ar y safle lle gellir dangos y byddai hyn yn gwella ansawdd y datblygiad ac y gall y man agored a ddarparwyd fodloni anghenion yr ardal leol yn well. Dylid datblygu cynigion wrth ymgynghori â Chynghorwyr wardiau lleol.
- 6.1.1 Mae'n hanfodol bod yr holl ardaloedd chwarae wedi'u cynllunio'n dda a'u bod wedi'u gosod mewn lleoliadau addas i sicrhau eu bod yn cael llawer o ddefnydd. Gall ardaloedd chwarae sydd wedi'u cynllunio a'u lleoli'n wael, ardaloedd dros ben ar ymylon y datblygiad yn aml, greu problemau amwynder ar gyfer preswylwyr neu beidio cael eu defnyddio a mynd a'u pen iddynt. Dylai safleoedd wneud defnydd llawn o nodweddion sy'n bod eisoes fel llwybrau troed cyhoeddus a choed gan sicrhau bod y rhain yn cael eu gwella a'u cadw ar y safle lle bo modd. Anogir datblygwyr i ddarparu mannau agored diogel i'w defnyddio ar y safle sy'n darparu ar gyfer anghenion gwahanol ddefnyddwyr ac oedrannau. Dylid cynllunio bod y gosodiad a'r nodweddion cynllunio'n gynhwysol ac yn hygyrch i bawb, gan ddarparu amgylchedd braf i ymlacio yn ogystal ag amgylchedd ddiogel i blant allu chwarae. Rhaid ystyried lleoli ar gyfer gwyliadwriaeth naturiol a diogelwch ffyrdd yn rhan o'r broses gynllunio. Efallai bod lle i gyfuno darpariaeth mannau agored a thirlunio gyda chynlluniau draenio trefol cynaliadwy (SUDS) a chreu cynefinoedd i wella bioamrywiaeth.

6.1.2 Cyfrifir cyfraniadau ariannol gan ddefnyddio nifer y preswylwyr a amcangyfrifir a chostau darparu mannau ar gyfer hamdden ar hyn o bryd.

6.1.3 Defnyddiwch gyfrifiannell mannau agored ar-lein y Cyngor ar:

http://www.denbighldp.co.uk/cymraeg/CCA_newC.htm

6.1.4 Bydd y cyfraniadau a gesglir yn cael eu defnyddio i wella cyfleusterau hamdden presennol, gwella mynediad at gyfleusterau presennol neu i ddarparu cyfleusterau newydd o fewn yr ardal leol a effeithir gan y datblygiad. Yr ardaloedd hynny yr effeithir arnynt gan y datblygiad yn unig a fydd yn cael budd y cyfraniad ariannol. Pan fo nifer o gynigion datblygu yn agos at ei gilydd a fydd, yn eu cyfanrwydd, yn golygu bod angen am gyfleusterau ychwanegol, gallai Sir Ddinbych gyfuno cyfraniadau yn ôl yr angen er mwyn negyddu'r effaith gynyddol.

6.1.5 Efallai y bydd y Cyngor yn gofyn bod ymgeiswyr yn ffurfio Bond ariannol er mwyn diogelu cyfraniadau ariannol, neu'r mannau agored y mae eu hangen yn rhan o gytundeb S106. Bondiau yw dull diogelu dewisol y Cyngor ac fe'u defnyddir i amddiffyn y Cyngor pe bai tirfeddiannwr yn peidio â thalu neu'n methu â darparu'r mannau agored a/neu'r gwaith cynnal a chadw sydd ei angen. Gellir cael hyd i fwy o wybodaeth am ddefnyddio Cytundebau Adran 106 yn y Canllaw Cynllunio Atodol 'Rhwymedigaethau Cynllunio'.

7 Rheoli Datblygu

7.1 Pan fydd mannau agored yn cael eu darparu ar y safle, bydd y Cyngor yn gofyn bod datblygwyr yn gwneud trefniadau addas i gynnal a chadw'r man agored yn y dyfodol. Dylid trafod unrhyw gynigion â'r Cyngor yn gynnar yn y broses. Croesewir trafod â'r swyddog achos cyn ymgeisio er mwyn gallu egluro gofynion mannau agored. Bydd angen i ni fod yn fodlon bod trefniadau addas wedi'u gwneud ar gyfer cynnal a chadw hirdymor. Er enghraifft trwy sefydlu cwmni rheoli, cymdeithas preswylwyr neu Gyngor Tref, Dinas neu Gymuned a chanddo adnoddau digonol, sy'n gyfrifol am eu cynnal a'u cadw, cyn y gellir cymeradwyo'r cais cynllunio. Os bydd y man hwnnw'n cael ei dderbyn gan Gyngor Dinas, Tref neu Gymuned, dylid darparu swm cyfnewidiol ar gyfer cynnal a chadw'r cyfleuster am gyfnod y cytunir arno. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn am gyfnod o 25 mlynedd, ond efallai bod sefyllfaoedd pan fydd angen cyfnod cynnal a chadw gwahanol. Dylid datblygu cynigion wrth ymgynghori â Chynghorwyr wardiau lleol. Bydd y Cyngor yn gofyn bod ymgeiswyr yn ffurfio bond ariannol er mwyn diogelu cyfraniadau ariannol y mae eu hangen, oni bai fod trefniadau diogelu addas wedi'u cytuno o fewn y cytundeb cyfreithiol.

7.2 Defnyddiwch gyfrifiannell mannau agored ar-lein y Cyngor i gyfrifo'r gofyn cynnal a chadw ar:

http://www.denbighldp.co.uk/cymraeg/cca_new.htm

8 Sbardun Darparu

8.1 Bydd yr amserlen ar gyfer cyflawni'r gwaith angenrheidiol yn cael ei chytuno ar y cyd â'r Cyngor ac yn ffurfio rhan o'r Cytundeb Cyfreithiol neu'r amodau cynllunio. Dylid trafod cynigion yn gynnar yn y broses er mwyn sicrhau, pan fo angen, bod darpariaeth addas yn cael ei chyflawni mewn modd sydd wedi'i gynllunio a'i bod yn ffurfio rhan ganolog o gynllun y datblygiad. Bydd amserlen cyfraniadau'n dibynnu ar natur y datblygiad a'r math o gyfraniadau sydd eu hangen. Dylid darparu mannau agored ar y safle mewn camau, fel arfer, a chyn gorffen y datblygiad bob tro.

9 Canllawiau ar Ddyluniad a Chynllun Mannau Agored newydd

9.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn nodi'r canllawiau ar gyfer cynllunio mannau agored, ond dylid eu trin â hyblygrwydd gan ddod o hyd i atebion unigol ar gyfer pob safle. Creu mannau agored sy'n cyflawni eu swyddogaeth yn effeithlon gan allu eu cynnal a'u cadw'n rhwydd ddylai fod yn brif nod i'r cynllun.

9.2 Egwyddorion Cynllunio Mannau Agored

Mae darparu mannau agored mewn datblygiad preswyl newydd a gwella mannau presennol yn gofyn am gynllunio a dylunio cyd-drefnus os yw'r manteision lles llawn i gymunedau – rhai cyfredol ac yn y dyfodol – yn mynd i gael eu gwireddu. Mae'r egwyddorion canlynol, ar y cyd, yn darparu ffordd o wneud penderfyniadau cynllunio cadarn ar gyfer cynllunio mannau agored:

9.2.1 Sicrhau bod mannau agored yn rhan ganolog, gynlluniedig o'r cynllun preswyl;

- Mae'n rhaid i fannau gwyrdd fod wedi'u lleoli i gael yr effaith orau gan ddibynnu ar y swyddogaethau a'r blaenoriaethau lles y mae eu hangen ar eu cyfer – wedi'u seilio ar y safle, ei ddefnydd arfaethedig, ei gyd-destun, anghenion a'i flaenoriaethau lles;
- Dylai'r asesiad o fannau agored a dadansoddiad cyd-destunol y safle helpu i nodi anghenion a blaenoriaethau lles yn ardal y safle, gan gynnwys ardaloedd sydd angen eu gwarchod a'u gwella;
- Dylid datblygu cynigion wrth ymgynghori â Chynghorwyr wardiau lleol a bydd angen ymgynghori â'r gymuned pan fo cynigion yn ymwneud â mannau agored presennol a phan fo mannau agored newydd i fod i ddarparu adnodd i'w rhannu rhwng preswylwyr newydd y datblygiad a'r gymuned sy'n bod yno eisoes;

- Mae ystod y swyddogaethau lles y gall mannau agored eu cynnwys yn amrywio, a gall gynnwys –
 - Mannau cymdeithasol ar gyfer chwarae, profi natur, hamdden anffurfiol, tyfu bwyd, cerdded cŵn;
 - Hygyrchedd ar droed ac ar feic, o fewn y safle ac i'r rhwydweithiau teithio llesol ehangach;
 - Gweithio gydag isadeiledd gwyrdd sy'n bod eisoes – cadw a gwella elfennau naturiol fel coed, cynefinoedd, cyswllt rhywogaethau a draenio;
 - Amwynder – creu lleoedd diogel a deniadol i bobl, gwahanu defnydd swnllyd a thawel o'r safle, lleihau effaith sŵn ac allyriadau traffig, rheoli dŵr wyneb rhag llifogydd;
- Mae technegau tirlunio'n ddefnyddiol i ddod â'r elfennau amrywiol ynghyd yn un cynllun cyd-drefnus sydd wedi'i seilio ar le ac un y gellir ei weithredu. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod swyddogaethau lles, ymdeimlad o le, ac anghenion pobl ar draws ystodau eang o oedrannau a gallu yn cael eu bodloni;
- Nid yw atebion cyffredinol a chynlluniau chwarae cyffredinol yn cyflwyno manteision lles i'r graddau y gall cynllunio a dylunio penodol ar gyfer y safle ei wneud.

9.2.2 Dylid cynllunio mannau agored a chyfleusterau hamdden newydd i safon uchel a dylai ymgeiswyr ymgynghori â'r cyhoedd trwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb rhyngweithiol wedi'u lleoli yn eu hardal er mwyn canfod yr hyn y maen nhw ei eisiau o ran dyluniad a chynllun. Dylid datblygu cynigion wrth ymgynghori â Chynghorwyr wardiau lleol. Bydd cael grwpiau cymunedol o wirfoddolwyr lleol yn cymryd rhan yn cynyddu'r siawns y bydd pobl leol yn defnyddio'r cyfleuster ac yn falch ohono. Mae gwella cyfleusterau presennol hefyd yn bwysig iawn a gellir defnyddio cyfraniadau i wneud hynny.

9.3 Mannau Gwyrdd Amwynder

Dyluniad a Chynllun Cyffredinol

- 9.3.1 Ardaloedd o fannau gwyrdd sy'n cael eu defnyddio ar gyfer hamdden anffurfiol yw mannau gwyrdd amwynder. Mae Mannau Gwyrdd Amwynder yn nodweddion pwysig mewn nifer o ardaloedd. Gallent fod yn ardaloedd o laswellt sy'n cael eu cynnal a'u cadw neu'n ardaloedd sydd wedi'u gadael i dyfu'n wyllt ac yn naturiol er mwyn cadw bioamrywiaeth yr ardal, gweler lluniau 1 a 2. Maent yn helpu i ddiffinio a gwahanu ardaloedd trefol a hyrwyddo manteision i amwynder gweledol ac ecoleg gan wella iechyd a lles cyffredinol. Mae POSTnote 538 (Hydref 2016) '*Green Space and Health*' yn dangos y gall fod manteision o ran iechyd yn gysylltiedig â pha mor agos a hygyrch yw mannau gwyrdd ar gyfer yr 82% o boblogaeth y DU sydd bellach yn byw mewn amgylcheddau trefol. Mae yn dangos y gall creu a gwella mannau gwyrdd wella lles meddyliol a chorfforol rhai grwpiau bregus.
- 9.3.2 Mae hi hefyd yn bwysig iawn bod y mannau'n cael eu cynllunio mewn modd sy'n ychwanegu at gymeriad yr ardal ac sy'n integreiddio'n dda â'r amgylchedd neu'r gymdogaeth sydd o amgylch. Dylid amddiffyn bioamrywiaeth, os ydyw ar y safle, ac mae angen i'r cynllun ystyried ei hanghenion. Gall ardaloedd bach o fannau gwyrdd amwynder hefyd fod â swyddogaethau lluosog, er enghraifft, fel basnau ymdreiddio glas a gerddi glaw, sef pantiau bas sydd wedi'u creu i allu delio â dŵr glaw a dŵr wyneb, gweler llun 3. Dylid cynnwys yr isadeiledd gwyrdd hwn yn y cynllun cyffredinol ar gyfer mannau agored mewn datblygiadau newydd.

Llun 1 Gan Greengage Environmental (2015), *People and Place – The Importance of Outdoor Space*



Llun 2 Plannu blodau gwyllt ar fannau gwyrdd amwynder yn Sompting, Biosffer Brighton a Bryniau Lewes



Llun 3 Isadeiledd gwyrdd, gerddi glaw, wedi'i gymryd gan Susdrain



Safleoedd Newydd

- 9.3.3 Wrth greu mannau newydd, bydd cyfle i wella eu gwerth i natur, er enghraifft, trwy greu coridorau bywyd gwyllt a chreu ardaloedd nad oes angen eu rheoli cymaint ac y gellir eu gadael yn fwy naturiol. Mae'n rhaid i Fannau Gwyrdd Amwynder gael mwy nag un pwynt mynediad, ond efallai y byddai safleoedd sydd ar lethr serth yn cael eu cyfrif yn rhai na ellir eu defnyddio oherwydd er bod yn serth. Dylai'r safle fod mewn lleoliad da o fewn y datblygiad. Gweler y Canllaw Cynllunio Atodol ar Ddylunio ar gyfer Datblygiadau Preswyl. Mae angen i'r safle fod yn agored, a byddai hynny'n gwella ei wedd gan ei wneud yn fwy diogel a lleihau'r tebygolrwydd o droseddu. Yn ddelfrydol, dylai'r mannau fod yn y golwg o ben blaen yr anheddau, a dylid eu cynllunio i fod mor ganolog â phosib'.
- 9.3.4 Gall Mannau Gwyrdd Amwynder sydd wrth ymyl cwrs dŵr ddarparu ardal i ddal llifogydd, felly mewn achosion o'r fath, dylid cynllunio'r man gan ystyried rheoli perygl llifogydd. Gallwch ddarllen safonau SUDS Llywodraeth Cymru ar y ddolen ganlynol, ac fe argymhellir ystyried y canllawiau hyn wrth gynllunio mannau agored ar ddatblygiadau newydd.

Dolen <http://gov.wales/docs/desh/publications/151230-suds-standards-cy.pdf>

Mynediad

- 9.3.5 Dylai mynedfeydd a giatiau fod o leiaf 1800mm o led i ganiatáu mynd â beiciau, chadeiriau olwyn a phramiau drwyddynt. Dylid codi rhwystrau i atal cerbydau rhag cael mynediad lle bo angen. Mae angen ystyried anghenion rhai sydd â nam ar eu golwg, gan gynnwys lleoliad biniau sbwriel, polion lamp a physt. Mae'n rhaid i beiriannau cynnal a chadw allu cyrraedd y safle, felly mae angen darparu giatiau clo o faint priodol i'r peiriannau y mae eu hangen. Cytunir yn ffurfiol ar hyn yn ystod cam y cais cynllunio. Os yw'r safle wrth ymyl ffordd brysur, mae'n rhaid darparu croesfannau diogel.

Llwybrau

- 9.3.6 Dylai arwynebau'r llwybrau fod o leiaf 1800mm o led a bod yn wastad neu â rampiau addas, yn llyfn ac yn gadarn i ganiatáu cadeiriau olwyn ar y mannau gwyrdd. Gallai deunyddiau'r arwynebau gynnwys tarmac, carreg, concrid neu balmant. Dylai arwynebau'r llwybrau fod yn hydraidd i gynorthwyo draenio.

Seddau, biniau sbwriel a goleuni

- 9.3.7 Dylid gosod meinciau o ansawdd uchel sydd wedi'u cynllunio ar gyfer anghenion pobl a chanddynt anableddau yn ofalus o amgylch y mannau gwyrdd amwynder. Er enghraifft, mewn ardaloedd llai swnllyd gyda golygfeydd eang neu'n edrych ar byllau dŵr a chyfleusterau eraill. Lle bo hynny'n briodol, dylid darparu byrddau picnic. Dylai byrddau picnic i gadeiriau olwyn fod ar gael yn yr un lle â'r holl fyrddau picnic eraill hefyd, gan fod ar wyneb caled. Dylid gosod biniau sbwriel a biniau cŵn yn ofalus a diogel yn y mannau gwyrdd amwynder, ar lefel is er mwyn i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn allu eu defnyddio hefyd, a dylid eu cynnal a'u cadw'n dda.

- 9.3.8 Mae goleuadau'n helpu i leihau ofn o droseddau, felly dylid byddai eu gosod ar hyd llwybrau cymunedol pwysig yn debygol o fod yn ffafriol, ond ni fydd angen goleuo pob llwybr cerdded. Efallai y bydd rhai cymunedau gwledig, er enghraifft, yn cael eu mwynhau am eu llonyddwch gyda'r nos, a byddai goleuadau ar fannau agored cyhoeddus yn cael effaith ddiangen. Mae angen i ddisgleirdeb y golau fodloni gofynion angenrheidiol y lleoliad penodol gan ystyried faint o lygredd golau sy'n cael ei greu. Gallai goleuo am i lawr i osgoi gormod o olau fod yn opsiwn, a dylai'r goleuadau fod yn rhai solar, lle bo modd.

Llun 5 Gan Skanska, goleuadau allanol cynaliadwy, ynni isel, cost-effeithiol, Caerloyw



Plannu

- 9.3.9 Gall llystyfiant leihau faint o ddŵr wyneb sy'n llifo a chynyddu faint o law sy'n cael ei ddal, yn ogystal â lleihau sŵn a lleihau llygredd aer. Dylid plannu coed i roi cysgod rhag yr haul. Dylai fod digon o ardaloedd wedi'u plannu ac ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau sy'n cyd-fynd â chymeriad yr ardal leol. Anogir ymgeiswyr i ddarparu nodweddion bioamrywiaeth newydd fel bocsys ystlumod, brics ystlumod a thai gwenoliaid duon a choridoriau bywyd gwyllt gwyrdd sy'n cysylltu mannau gwyrdd amwynder newydd â rhai sy'n bod eisoes.

9.4 Darpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

- 9.4.1 Mae TAN 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored yn nodi: “Er bod mannau chwarae ffurfiol gydag offer yn rhoi cyfleoedd, yn enwedig i blant ifanc o fewn cymunedau, nid y rhain yw'r unig fathau o ddarpariaeth y dylid eu cynnig. Gall ardaloedd chwarae ar olwynion, ardaloedd gemau pêl, 'mannau i chwarae', coetir cymunedol ac ardaloedd anffurfiol ar gyfer 'chwarae amgylcheddol' roi cyfleoedd i blant ryngweithio a chael y manteision cymdeithasol a'r rhai i iechyd a lles sy'n dod o gyfleoedd ar gyfer chwarae egniol a chorfforol.”
- 9.4.2 Mae mannau i chwarae'n bwysig ar gyfer datblygiad iach plant a phobl ifanc, nid yn unig yn gorfforol ac yn gymdeithasol, ond yn wybyddol hefyd. Dylai plant fod â mynediad at fannau gwyrdd a mannau chwarae gyda chyfarpar sy'n annog chwarae'n ddychmygus ac yn greadigol. Mae rhagdybiaeth gyffredin yn ystod y broses gynllunio ynglŷn â sut y dylai mannau chwarae edrych, gan gynnwys cyfarpar sylfaenol fel llithrennau, siglenni, ffensys a wynebau rwber. Fodd bynnag, er bod plant yn mwynhau'r ardaloedd hyn, nid oes gan rai plant fynediad at yr amgylchedd naturiol a'r cyfleoedd chwarae sydd ynghlwm â hynny, gweler Llun 6. Mae angen syniadau newydd wrth gynllunio mannau chwarae sy'n dilyn y 10 egwyddor a nodwyd gan Chwarae Cymru (Canllawiau wedi'u llunio gan Play England, 2008).

Llun 6 Enghraifft wych wedi'i chymryd gan PlaygroundadventureUK o Erddi Coffa'r dywysoges Diana yn Llundain



9.5 Y 10 egwyddor ar gyfer cynllunio mannau chwarae llwyddiannus

9.5.1 Mae mannau chwarae llwyddiannus...

1. yn unigryw
2. mewn lleoliad da
3. yn defnyddio elfennau naturiol
4. yn darparu ystod eang o brofiadau chwarae
5. yn hygyrch i blant anabl a rhai nad ydynt yn anabl
6. yn bodloni anghenion y gymuned
7. yn caniatáu i blant o oeddrannau gwahanol chwarae ynghyd
8. yn darparu cyfleoedd i brofi risgiau a heriau
9. yn gynaliadwy ac yn cael eu cadw mewn cyflwr priodol
10. yn caniatáu newid a datblygu

Deddfwriaeth

- 9.5.2 Mae'n rhaid i unrhyw safonau diogelwch gydymffurfio â - EN1176 Cyfarpar Meysydd Chwarae a Safon Ffensio Safonol BS1722. Mae angen i'r cynllun ystyried gofynion Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 mewn perthynas â hygyrchedd i sicrhau bod cyfle i bob plentyn ryngweithio a chwarae ynghyd, waeth beth fo'u gallu.

Mynediad

- 9.5.3 Os defnyddir ffensys o amgylch y safle, yna dylent sicrhau diogelwch ac atal cŵn rhag bawo arno. Dylai gwaith tirlunio ganiatáu bod gwyliadwriaeth naturiol dros y man chwarae o ardaloedd cyhoeddus, ffyrdd a llwybrau cerdded. Dylai mynedfeydd a giatiau fod o leiaf 1800mm o led i ganiatáu mynd â chadeiriau olwyn a phramiau drwyddynt. Dylid codi rhwystrau i atal cerbydau rhag cael mynediad lle bo angen. Bydd mynedfa'r mannau chwarae'n cael ei dewis ar sail lleoliad y man chwarae. Os yw'r fynedfa ar ochr ffordd, yna efallai y bydd angen arafu'r modd y mae rhywun yn ei adael gan ddefnyddio cynllun y gosodiad neu ddeunyddiau wyneb. Efallai y bydd angen rhwystr ffordd ar y palmant hefyd. Mae angen ystyried anghenion rhai sydd â nam ar eu golwg, gan gynnwys lleoliad biniau sbwriel, polion lamp a physt. Mae'n rhaid i beiriannau cynnal a chadw allu cyrraedd y safle, felly mae angen darparu giatiau clo o faint priodol i'r peiriannau y mae eu hangen. Cytunir yn ffurfiol ar hyn yn ystod cam y cais cynllunio. Os yw'r safle wrth ymyl ffordd brysur, mae'n rhaid darparu croesfannau diogel. Ni ddylid caniatáu cŵn, ac eithrio cŵn tywys.

Cyfarpar ac arwynebau

- 9.5.4 Nid oes angen cyfarpar i'r holl chwarae a wneir ar y safle, gan ei bod hi'n ddewisol cael nodweddion chwarae naturiol mewn rhai achosion, fel twmpathau, cerfluniau, wynebau/lefelau gwahanol a phlanhigion a wynebau synhwyrdd, sy'n dal i allu cynnig cyfleoedd chwarae. Dylid ystyried cyfarpar gwahanol sy'n addas ar gyfer pob oed, yn blant bach ac yn blant hŷn a rhai yn eu harddegau.

Llun 7 Enghraifft o ardal chwarae naturiol o HiMama



Llun 8 Chwarae anturus wedi'i gymryd gan Islington Play Association



Llun 9 Enghreifftiau o gerfluniau a wynebau mewn ardaloedd chwarae naturiol



- 9.5.5 Dylid cael ystod o fathau o gyfarpar i blant hŷn a iau a dylai fod yn weithredol ac yn greadigol. Dylid gwahanu eitemau sy'n siglo sydd wedi'u cynllunio ar gyfer plant hŷn oddi wrth y cyfarpar arall gyda ffens neu fariâu. Dylai fod yno elfen o risg yn gysylltiedig â chwarae fel ddywedodd Play England (2008). Felly, dylai'r mannau chwarae annog gweithgareddau fel cadw cydbwysedd, siglo, dringo, llithro a chwarae cymdeithasol. Pan fo'u hangen, dylai fod cyfleusterau ar gyfer plant o oedran cyn ysgol hefyd, fel pyllau tywod a phaneli chwarae. Efallai y bydd nodweddion dŵr hefyd yn dderbyniol. Dylai'r wynebâu sydd o dan ac o amgylch y cyfarpar chwarae allu esmwytho sioc a bod yn wastad (e.e. wynebâu rwber, teils rwber) neu fod yn naturiol, lle bo modd.
- 9.5.6 Argymhellir cynnwys yr Iaith Gymraeg yn yr offer chwarae a'r gweithgareddau a ddarperir mewn mannau chwarae, er mwyn ysgogi meddyliau pobl ifainc a'u helpu i gofio geiriau ac ymadroddion. Byddai hyn yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg (1993) drwy hyrwyddo'r Gymraeg.
- 9.5.7 Dylai cynllun y man chwarae fod yn destun asesiad risg trylwyr, sy'n edrych ar yr holl wynebâu, y lle rhwng strwythurau chwarae a'r uchder angenrheidiol ar gyfer bariau. Dylai'r cyfarpar a'r wynebâu gael eu cynllunio, eu cynhyrchu, eu gosod a'u cynnal yn unol â Safonau Ewropeaidd BS EN 1176 a BS EN 1177.

Plannu

- 9.5.8 Pan fo ardaloedd chwarae'n rhan fechan o ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc, mae'n bwysig ystyried bioamrywiaeth yr ardal amgylchynol. Dylid plannu coed i roi cysgod rhag yr haul a dylai fod digon o ardaloedd wedi'u plannu i greu coridorau bywyd gwyllt gwyrdd sy'n cysylltu'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc â mannau gwyrdd amwynder a mannau chwarae anffurfiol cyfagos.

Seddau, biniau sbwriel a goleuni

- 9.5.9 Dylid gosod meinciau o ansawdd da sydd wedi'u cynllunio gan ystyried anghenion unigolion ag anableddau o amgylch yr ardal chwarae. Lle bo hynny'n briodol, dylid darparu byrddau picnic, gan gynnwys byrddau picnic i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Dylid gosod biniau sbwriel yn ofalus a diogel yn y man chwarae ar lefel is er mwyn i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn allu eu defnyddio hefyd, a dylid eu cynnal a'u cadw'n dda.

9.5.10 Mae goleuadau'n helpu i leihau ofn o droseddau, felly byddai eu gosod ar hyd llwybrau cymunedol pwysig yn debygol o fod yn ffafriol, ond ni fydd angen goleuo pob llwybr cerdded. Efallai y bydd rhai cymunedau gwledig, er enghraifft, yn cael eu mwynhau am eu llonyddwch gyda'r nos, a byddai goleuadau ar fannau agored cyhoeddus yn cael effaith ddiangen. Mae angen i ddisgleirdeb y golau fodloni gofynion angenrheidiol y lleoliad penodol gan ystyried faint o lygredd golau sy'n cael ei greu. Gallai goleuo am i lawr i osgoi gormod o olau fod yn opsiwn, a dylai'r goleuadau fod yn rhai solar, lle bo modd. Gweler llun 5.

9.6 Cyfleusterau Chwaraeon Awyr Agored

9.6.1 Mae'r ddogfen Cyfleusterau ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: Glasbrint ar gyfer Chwaraeon a Hamdden Egniïol yng Nghymru (2016) yn amlygu pa mor bwysig yw creu cyfleusterau chwaraeon a hamdden addas a chryf ar gyfer heddiw a'r dyfodol. Gallai hyn olygu symud oddi wrth y galw am gaeau chwaraeon traddodiadol o laswellt tuag at gyfleusterau modern fel Ardaloedd Gemau Amldeffnydd, Caeau Artiffisial, llwybrau ffitrwydd, parciau sgrialu, llwybrau beicio mynydd a chyfleusterau dan do fel ystafelloedd ffitrwydd ac ystafelloedd gweithgareddau. Mae'n rhaid i ddatblygwyr weithio gyda'r gymuned leol a chlybiau chwaraeon lleol i helpu i bennu pa gyfleusterau y mae eu hangen ac sydd orau i fodloni anghenion lleol.

9.6.2 Mae 'Dringo'n Uwch a'r Camau Nesaf' (2006) Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu'r angen i gynyddu faint o fannau gwyrdd, cyrsiau dŵr a thir gwledig lleol o safon uchel sydd ar gael ac sy'n hygyrch. Felly, mae'n dal yn bwysig darparu Cyfleusterau Chwaraeon Awyr Agored o ansawdd da. Mae canllawiau ar hyn wedi'u nodi isod. Gall cyfraniadau gan ddatblygwyr fynd tuag at welliannau i ansawdd caeau glaswellt naturiol sy'n bod eisoes ond hefyd i leihau'r galw am y rhain trwy gyfrannu tuag at brosiectau eraill yn yr ardal sy'n annog cyfranogiad lleol.

9.6.3 Er bod darparu cyfleusterau chwaraeon i fodloni'r safonau a osodir gan y Gymdeithas Meysydd Chwarae'n bwysig, mae hi hefyd yn hanfodol pwysleisio bod angen darparu ar gyfer chwaraeon anffurfiol fel rhedeg ar lwybrau a beicio mynydd, sy'n cael eu mwynhau gan fwy o bobl na'r rheini sy'n gwneud chwaraeon tîm wedi'u trefnu.

Dyluniad a Chynllun Cyffredinol

9.6.4 Caeau chwaraeon

Mae cyfleusterau chwaraeon awyr agored sydd wedi'u cynllunio'n dda ac sydd mewn lle da'n cynnig cyfle i bobl wneud ymarfer corff a gwella eu hiechyd a'u lles cyffredinol. Mae'n rhaid cael mynedfa mewn mwy nag un lle ac os oes bioamrywiaeth ar y safle, dylid cynnwys mesurau diogelu a gwella bioamrywiaeth, fel plannu o amgylch yr ymylon, yn y cynllun. Ni ellir defnyddio safleoedd sydd ar lethrau serth a mannau agored sydd yn wyneb gwyntoedd cryfion i'r diben hwn. Gall caeau chwaraeon hefyd fod yn: gyfleusterau ymdreiddio dŵr glaw, ardaloedd storio llifogydd a choridoriau cludo dŵr pan fo llifogydd sy'n ormod i systemau draenio eraill allu ymdopi â nhw ac felly dylid cynnwys hynny wrth eu dylunio.

9.6.5 Mae gwyliadwriaeth naturiol yn bwysig a dylid ei hystyried wrth gynllunio. Bydd ffensys o amgylch y safle, y ffyrdd a'r llwybrau troed yn caniatáu hyn. Fodd bynnag, dylai'r cyfleuster fod ddigon pell oddi wrth anheddau neu adeiladau eraill i gyfyngu ar faint o lygredd sŵn sy'n amharu ar gymdogion. Bydd parthau gwahanu fel llwybr beicio neu lwybr cerdded yn creu rhywfaint o bellter.

9.6.6 Dylai pyst fod yn y man priodol gyda rhwydi ar gael at ddefnydd y gymuned leol a chlybiau chwaraeon. Mae'n rhaid i farciau fod yn eglur ac wedi'u cadw'n dda i amlinellu'r cae chwarae. Mae'n rhaid darparu croesfannau diogel os yw'r safle wrth ymyl ffordd brysur a dylai safle bws fod gerllaw'r cyfleusterau chwaraeon ffurfiol.

9.6.7 Mae'n rhaid darparu parcio oddi ar y stryd ar gyfer y cyfleusterau chwaraeon ffurfiol, gan gynnwys parcio i bobl anabl. Dylid darparu man parcio gerllaw'r cyfleuster i 3 beic, o leiaf, hefyd.

Arwyneb

9.6.8 Mae'n rhaid i arwyneb unrhyw gyfleuster sy'n addas ar gyfer y math o chwaraeon fod yn wastad heb unrhyw bantiau. Dylid gosod systemau draenio i gludo dŵr wyneb oddi ar y safle.

Seddau, biniau sbwriel a goleuni

9.6.9 Mae'n rhaid i'r holl seddau fod o safon uchel gyda digon ohonynt, a bod mewn lle da i atal ymyrryd â'r chwarae. Dylai biniau sbwriel sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n briodol fod wedi'u gosod o amgylch y safle.

9.6.10 Gall defnyddio llifoleuadau ymestyn y cyfnod y gellir defnyddio cyfleuster, gan roi mwy o gyfleoedd ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau hamdden. Fodd bynnag, dylid ystyried llygredd goleuni gan ganolbwyntio'n benodol ar ddefnyddio goleuadau am y llawr. Dylid cynllunio systemau goleuo'n ystyriol, a'u gosod i geisio atal gormod o olau rhag taro ar eiddo a thir cyfagos. Defnyddio torwyr golau a bafflau i leihau faint o oleuni sy'n cael ei daflu a sicrhau bod lefelau disgleirdeb y goleuni sy'n cael ei gynhyrchu ar y lefel leiaf sydd ei hangen i fodloni anghenion y sefyllfa benodol honno.

Cyfleusterau newid

9.6.11 Ar gyfer cyfleusterau ffurfiol sydd dros 0.6 hectar o faint, dylid darparu cyfleusterau newid glân a diogel. Dylent gynnwys cawodydd, toiledau i ddynion a merched a chyfleusterau ar wahân i swyddogion. Dylid cynllunio pob pafiliwn i fodloni gofynion Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995.

9.7 Cyfleusterau chwaraeon awyr agored anffurfiol eraill

9.7.1 Mae'n bwysig ystyried darparu ffurfiau eraill ar gyfleusterau chwaraeon awyr agored anffurfiol ar wahân i gaeau chwaraeon glas. Mae'r lluniau isod yn enghreifftiau o'r mathau o gyfleusterau sydd i'w gweld yn fwyfwy aml erbyn hyn. Efallai bod cyfle i gyfraniadau datblygu fynd tuag at wella cyfleusterau presennol fel caeau chwarae a chaeau chwaraeon gan ddatblygu llwybr ffitrwydd neu gampfa awyr agored o amgylch y tu allan.

Llun 10 Enghraifft o gampfa awyr agored wrth ymyl cae chwarae, wedi'i gymryd gan Goedwig y GIG



Llun 11 Enghraifft o lwybr ffitrwydd yn Llundain, Eclectic Cake



Llun 12 Enghraifft wych o lwybr beicio mynydd yn Nhreuddyn, Sir y Fflint



9.8 Coridorau Gwyrdd a Rhwydweithiau Teithio Llesol

- 9.8.1 Mae coridorau gwyrdd yn dod trwy gyfle o ganlyniad i leoliad cwrs dŵr neu lwybr cerdded, er enghraifft. Er hynny, maent yn gyfleuster pwysig sy'n aml yn rhoi cyfleoedd ar gyfer teithio cynaliadwy a chyfleoedd sy'n bwysig i fioamrywiaeth ardaloedd lleol. Er nad oes safonau wedi'u gosod o ran coridorau gwyrdd, mae'n bwysig eu bod yn cael eu darparu lle bo modd er mwyn gwella cysylltiadau â mannau agored neu fel llwybrau at gyfleusterau lleol. Mae hi hefyd yn addas gwella coridorau gwyrdd pan fo hynny'n bosib'. Oherwydd hyn, gellir defnyddio cyfraniadau i gynyddu nifer a gwella ansawdd coridorau gwyrdd pan fo cyfle i wneud hynny. Mae coridorau gwyrdd yn cefnogi'r Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd.
- 9.8.2 Gellir gwario cyfraniadau gan ddatblygwyr ar wella hygyrchedd Hawliau Tramwy Cyhoeddus os ydynt yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan ddatblygiad newydd, er enghraifft, trwy osod giatiau mochyn (gyda mynediad i gadeiriau olwyn lle bo modd) yn lle camfeydd, sy'n caniatáu i bobl nad ydynt yn gallu defnyddio camfa ddefnyddio'r rheini yn eu lle. Gweler Llun 13.

Llun 13 Enghraifft o giât mochyn wedi'i chymryd gan Peak and Northern Footpaths Society




9.9 Mannau Gwyrdd Naturiol a Lled-naturiol Hygyrch

- 9.9.1 Yn ôl TAN 16, mae'r math hwn o fannau gwyrdd yn cynnwys coedwigoedd, coedwigoedd trefol, prysgdir, glaswelltir (e.e. gwastadeddau, tir comin a dolydd), corstir, gwarchodfeydd natur a thir diffaith lle mai eu prif bwrpas yw cadwraeth bywyd gwyllt a bioamrywiaeth o fewn ffiniau anheddiad. Gall tir naturiol a lled-naturiol sy'n agored ac yn hygyrch wella diogelwch mewn ardaloedd trwy leihau'r tebygolrwydd o droseddau. Mae astudiaethau fel yr un gan Donovan a Prestermon (2010) wedi dangos bod coed yn rhoi ymdeimlad bod cymdogaeth yn cael mwy o ofal a bod coed ar y stryd yn gysylltiedig â llai o achosion o droseddu.
- 9.9.2 Gall mannau gwyrdd naturiol sy'n hygyrch fod â nifer o swyddogaethau fel bod yn gyfleusterau ymdreiddio dŵr glaw, ardaloedd storio llifogydd, coridorau cludo llifogydd sy'n ormod i systemau draenio eraill ymdopi â nhw yn ogystal â chadw bioamrywiaeth, bod yn llesol yn feddyliol, lle i wneud ymarfer corff, rhwystro llygredd aer, amddiffyn ardaloedd sydd ar lannau cyrff dŵr, creu sgriniau gweledol a lleihau sŵn, gweler lluniau 11 ac 12. Pan geisir cyfraniad ariannol, gellir ei wario ar brosiectau mannau agored sydd o fantais uniongyrchol i breswylwyr y datblygiad. Gall hyn gynnwys gwelliannau i fannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol pan fo hynny'n briodol.

Llun 11 Parc mewn coetir ar gyfer hamdden, trwy garedigrwydd CNC



Llun 12 Pencoed, Dinbych. Llun wedi'i ddarparu gan Wasanaethau Cefn Gwlad CSDd



10 Cysylltiadau

Rheoli Datblygiadau, Cynllunio a
Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Sir
Ddinbych
Caledfryn
Ffordd y Ffair, Dinbych
LL16 3RJ

Cyfeiriad Blwch Post:

Rheoli Datblygiadau, Cynllunio a
Gwarchod y Cyhoedd

Cyngor Sir Ddinbych

Blwch Post 62

Rhuthun

LL15 9AZ

Ffôn: 01824 706727

E-bost:

cynllunio@sirddinbych.gov.uk

Cynllunio Strategol a Thai,
Cynllunio a Gwarchod y
Cyhoedd Cyngor Sir Ddinbych
Caledfryn
Ffordd y Ffair,
Dinbych,
LL16 3RJ

Cyfeiriad Blwch Post:

Cynllunio Strategol a
Thai

Cyngor Sir Ddinbych

Blwch Post 62

Rhuthun

LL15 9AZ

Ffôn: 01824 706727

E-bost: cdll@sirddinbych.gov.uk